

Digimap for Schools

O'r Cae i'r Fforc

Alan Parkinson

Adnodd Addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 3



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: **O'r Cae i'r Fforc**

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 3	Milltiroedd Bwyd	Swydd Lincoln, Prydain Fawr

Gwybodaeth a Sgiliau	Defnyddio lefelau closio, anodi mapiau, labelu mapiau.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Amaethyddiaeth/Milltiroedd Bwyd/Arallgyfeirio.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau i ddehongli a chyflwyno gwybodaeth leoliadol, cyfleu syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio mapiau a delweddau gweledol.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd 1.13b, 2.09a, 4.09a-b, 4.14a.

Gweithgaredd

Mae'r gweithgaredd hwn yn edrych yn fanwl ar daith ysgewyll o'r cae i'r plât, ac mae'n cyflwyno'r cysyniad o ffwydydd gydag enwau wedi'u hamddiffyn.

Efallai y byddai'n gwell gennych chi bod y myfyrwyr yn cyflwyno'r gwaith hwn ar ffurf cyflwyniad PowerPoint®.

Cyflwyniad

Un ffocws ar gyfer astudiaeth ddaeryddol yw teithiau bwyd o'r lle ble caiff ei gynhyrchu, i'r lle ble caiff ei fwyta. Caiff y pellter ei fesur mewn 'milltiroedd bwyd', sef ymadrodd a gyflwynwyd gan yr Athro Tim Lang. Yn gyffredinol, ystyrir bod bwyd sydd wedi teithio ymhellach yn 'waeth' ar gyfer yr amgylchedd na bwyd sydd wedi cael ei dyfu'n fwy lleol, er dylai myfyrwyr fod yn feirniadol o'r syniad hwn wrth i'w dealltwriaeth ddatblygu.

Dolenni ar y we

Yn ogystal â'r dolenni gwe yn y gweithgareddau, gall y rhai canlynol fod o ddiddordeb:

- Gwybodaeth gefndir am Worth Farms, sydd wedi cynhyrchu bwyd yn Ffendiroedd Swydd Lincoln ers blynnyddoedd. <http://www.worthfarms.co.uk/further-history-of-worth-farms.pdf>
- Mae tipyn o adnoddau bwyd ar gael ar wefan y Gymdeithas Ddaeryddol hefyd:

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

<http://geography.org.uk/cpdevents/onlinecpd/geographyoffood/>

<http://geography.org.uk/cpdevents/onlinecpd/foodsecurity/>

Prif weithgaredd

Rydych chi'n mynd i ddilyn taith llysieuyn sydd ddim yn boblogaidd gyda phawb: **yr ysgewyllen...**



Caiff ysgewyll eu tyfu mewn nifer o leoliadau, ond un o'r prif ardaloedd yw Ffendiroedd Swydd Lincoln. Dyma un o'r prif leoliadau ar gyfer prosesu bwyd a'i storio, o ble caiff bwyd ei gludo i archfarchnadoedd.

Llunio stori ddarluniadol o 'ddyddiadur ysgewyllen': sut mae'r ysgewyll yn mynd o'r cae i'r fforc, gan gynnwys mapiau o'r lleoliadau sy'n cael eu cynnwys.

- Bydd angen i chi greu cyfres o sgrinluniau o'r mapiau a ddangosir ar lefelau gwahanol.
- Gallwch gynnwys lluniau a disgrifio'r dirwedd y gallwch ei gweld.
- Ystyriwch a ellir gwneud arbedion o ran ôl-troed carbon cynhyrchu bwyd, trwy newid y ffordd y mae'r bwyd yn cael ei ddsbarthu. Pam ydych chi'n meddwl y caiff y bwyd ei ddsbarthu fel hyn, ar hyn o bryd?
- Darganfyddwch ble mae Brwsel a pham y caiff ysgewyll eu galw'n *Brussel sprouts*.

Cae TF2438

Caiff ysgewyll eu tyfu yn Ffendiroedd Swydd Lincoln gan fod y pridd yn ddelfrydol iddyn nhw dyfu, oherwydd ei wead mân, mae'n ffrwythlon ac yn draenio'n dda. Roedd ysgewyll yn arfer cael eu casglu â llaw, cyn cyflwyno stripio mewnfaes. Mae'r ysgewyll nawr yn cael eu casglu gan ddefnyddio peiriant.

Mae'r ysgewyll yn cael eu tynnu oddi ar y goes ac yn cael eu gwerthu'n rhydd neu mewn rhwydi, er, mae rhai siopau'n gwerthu ysgewyll ar y goes hefyd.

Mae rhai mathau o gynaeafu yn cynnwys stripio cae cyfan. Yn yr achos hwn, efallai y defnyddir anifeiliaid, fel defaid, i fwyta'r coesau a'r gwastraff sydd ar ôl. Gellir gweld hyn yn aml yn y Ffendiroedd yn ystod misoedd y gaeaf ar ôl y prif gyfnod cynaeafu cyn y Nadolig.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Ffatri prosesu TF2525

Mae rhai archfarchnadoedd eisiau i'r ysgewyll gael eu paratoi, sy'n cynnwys tynnu'r dail allanol a'u gosod mewn bagiau wedi'u selio dan wactod ar bwysau penodol. Mae hyn yn ychwanegu gwerth, ond mae'n cymryd amser ychwanegol yn y broses prosesu bwyd. Mae'n rhaid symud ysgewyll yn gyflym gan eu bod nhw'n gynhyrchion darfodus. Caiff y gwaith prosesu ei wneud mewn ffatri ger Spalding yn Swydd Lincoln.

Warws SK8255

Mae'r ysgewyll wedyn yn mynd i warws ar gyrion Newark, cyn cyrraedd yr archfarchnad.

Archfarchnad TF8109 (neu dewch o hyd i archfarchnad sy'n lleol i chi)

Mae'r cyfeirnod grid yn cyfeirio at archfarchnad yn Swaffham. Un o hynodrwydd warysau wedi'u canoli yw y gall bwyd gael ei gludo ymhell o ardal cyn cael ei ddychwelyd i'r un ardal i'w werthu. Mae hyn yn cynyddu'r milltiroedd bwyd, mewn ffordd a all ymddangos yn ddiangen.

Fforc: lleoliad o'ch dewis chi

Dewch â'r daith i ben trwy fynd i gartref prynwr dychmygol yr ysgewyll, neu i'ch cartref chi, lle byddan nhw'n cael eu gweini i de.

Adnoddau:

Yn ogystal â mapiau'r Arolwg Ordnans, efallai yr hoffech gynnwys delweddau yn eich dyddiadur. Ewch i <http://schools.geograph.org.uk/> i ddod o hyd i rai lluniau. Teipiwch y canlynol yn y blwch chwilio:

- *Lincolnshire Fenland (Ffendiroedd Swydd Lincoln)*
- *Brussel sprouts (Ysgewyll)*
- *Lincolnshire vegetable processing plant (Ffatri prosesu llysiau Swydd Lincoln)*
- *Supermarket distribution centre (Canolfan ddosbarthu archfarchnad)*
- Cod post eich archfarchnad

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mynd gam ymhellach

1. Bwyd lleol

Mae bwydydd lleol (bwydydd sy'n cael eu tyfu neu eu cynhyrchu, eu prosesu, eu masnachu a'u gywerthu o fewn radiws daearyddol o 30–50 milltir) yn cynyddu mewn poblogrwydd. Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd? Pam fyddai pobl yn barod i dalu mwy am fwyd lleol weithiau, na bwyd sydd wedi teithio pellter hir, neu wedi cael ei fewnforio?

2. Enwau wedi'u hamddiffyn

Ym 1993, daeth deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i rym sy'n amddiffyn enwau bwydydd penodol ac yn dyfarnu un o dri marc:

- **Enw Tarddiad Gwarchoddedig (PDO)**

Caiff y bwydydd hyn eu cynhyrchu, eu prosesu a'u paratoi o fewn ardal ddaearyddol benodol, gyda nodweddion sydd o ganlyniad i'r ardal ddaearyddol.

- **Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI)**


Mae'n rhaid i'r bwydydd gael eu cynhyrchu, eu prosesu a'u paratoi o fewn yr ardal ddaearyddol, a chanddynt enw da, nodweddion neu ansodau penodol y gellir eu priodoli i'r ardal honno.

- **Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG)**

Mae gan y bwydydd enwau cyffredin a set o nodweddion sy'n eu gwahaniaethu nhw oddi wrth gynhyrchion tebyg.

O dan y system hon, bydd bwyd neu ddiodydd a enwir, pan gaiff ei gofrestru, yn cael ei amddiffyn yn gyfreithiol yn erbyn dynwarediad ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n anodd iawn cael y statws hwn a dim ond oddeutu 60 o gynhyrchion yn y DU sydd â'r amddiffyniad hwn. Mae rhestr o'r holl enwau wedi'u hamddiffyn a map rhyngweithio ar gael ar y wefan hon:

<https://www.gov.uk/protected-food-names-guidance-for-producers>



© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

